PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

## Dis BBC Micro:Bit

Beth am i ni wneud rhaglen dis ar gyfer ein Micro:Bit.

1. Crewch raglen newydd

2. Yn y bloc 'ar ddechrau' crëwch sgrin gychwynnol sy'n dweud wrthych chi pa raglen sy'n rhedeg, gan ddefnyddio delwedd neu neges.


3. Dewch o hyd i'r bloc 'ar ysgwyd':




4. Gallwn wedyn osod y bloc hwn sy'n dewis rhif ar hap:




Tu mewn i hwn sy'n dweud wrth y Micro:Bit am ddangos rhif:




Cyn eu symud i'r bloc 'ar ysgwyd'.

5. Ar y funud bydd y Micro:Bit yn cynhyrchu unrhyw rif rhwng 0 a 10. Bydd angen i chi newid hyn er mwyn gwneud iddo gyfateb i ddis 6 ochr arferol.

Nawr lawrlwythwch hwn i'ch Micro:Bit er mwyn ei brofi.

Gallwch hefyd ychwanegu effeithiau sŵn i'ch dis er mwyn i'r chwaraewr wybod ei fod yn dewis rhif newydd.

**Estyniad:**

Allwch chi wneud y rhaglen hon yn ddis 12 ochr?

Fel mwy o her, sut fyddech chi'n gwneud i'r rhaglen ymddwyn fel dau ddis 6 ochr wrth gael eu rholio? Pam y byddai hyn yn wahanol i'r rhaglen ar gyfer dis 12 ochr uchod?

*Cliw: Bydd angen i chi ddefnyddio'r bloc màths hwn:*

